Ysgol Gynradd Llanddarog

Eco – Newyddion

Tymor Yr Haf , 2017 **Rhif 34**

Ffair Haf

Cafwyd Ffair Haf llwyddiannus dros ben ar Orffennaf 6ed. Bu Dosbarth 5 a 6 yn creu breichledi. Bu Dosbarth 3 a 4 yn creu bowlenni. Bu'r Cyfnod Sylfaen yn creu goleuadau Tylwyth Teg a gemau Croes a Chylch. Diolch i'r disgyblion am eu gwaith caled a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth. Llwyddwyd i godi £3700 tuag at yr ysgol – diolch i Gymdeithas Cyfeillion yr Ysgol!

Mabolgampau

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar brynhawn dydd Mawrth, Gorffennaf 4ydd. Cawsom lawer o hwyl! Y llys buddugol eleni oedd Cyndeyrn. Enillodd Hannah Davies, o lys Cyndeyrn, a Jac Jones, o lys Arthne, y cwpanau i'r ferch a'r bachgen gyda'r nifer fwyaf o bwyntiau.

Sioe Llanddarog

Cynhaliwyd Sioe Llanddarog ar Fehefin 24ain. Roedd gan yr ysgol gornel i'r plant yn y sioe eleni eto. Buodd disgyblion yr ysgol yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau.

Pererindod Blwyddyn 6

Ar ddydd Iau Gorffennaf 13eg, aeth disgyblion Blwyddyn 6 ar bererindod o gwmpas Tŷ Ddewi. Bu'r disgyblion yn edrych nôl ar eu profiadau yn yr ysgol gynradd ac yn edrych ymlaen at ddechrau ysgol newydd.

Adran Iau - Heatherton

Yn ddiweddar, buodd yr Adran Iau i Heatherton ar gyfer ein hymweliad diwedd tymor. Cawsom hwyl wrth wneud amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys saethyddiaeth, cartio, cychod dŵr a sorbio.

Cyfnod Sylfaen – Yr Ardd Fotaneg

Ymwelodd ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen â'r Ardd Fotaneg. Buon nhw'n mwynhau yn y ddrysfa wellt ac yn adeiladu cuddfannau yng ngoedwig y Tylwyth Teg.

Etholiad 2017 - 2018

Ar fore dydd Mercher Gorffennaf 19eg, cynhaliwyd etholiad yr Eco-Gyngor am y flwyddyn 2017-2018. Diolch i ddisgyblion Blwyddyn 6 am helpu i gynnal yr etholiad. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn y rhifyn nesaf.